POLISI A STRATEGAETH, DOGFENNU

# Cylch gwaith blynyddol Estyn: 2024 i 2025

Yr adolygiadau a'r cyngor sydd eu hangen arnom gan Estyn 2024 i 2025.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 20 Mawrth 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 20 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Y cyngor penodol sy’n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2024 i 2025

## 1a) Adroddiadau manwl a, lle bo'n briodol, adnoddau eraill sy’n tynnu ar dystiolaeth o arolygiadau thematig

Caiff yr adolygiadau thematig sydd i’w cynnwys yng nghylch gwaith Estyn ar gyfer 2024 i 2025:

### Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd

Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried pa mor dda y mae ysgolion uwchradd yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn rheoli ymddygiad heriol. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at arferion effeithiol. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried argymhellion perthnasol o'n hadroddiad yn 2018 ar 'Symudiadau Rheoledig'. Bydd yr adolygiad yn ystyried nodweddion gwarchodedig disgyblion sy'n gysylltiedig â digwyddiadau yn ymwneud ag ymddygiad.

Hyd: adolygiad safonol

### Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn Colegau Addysg Bellach (AB)

Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried pa mor dda y mae colegau AB yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn rheoli ymddygiad heriol. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at arferion effeithiol. Bydd yr adolygiad yn ystyried nodweddion gwarchodedig dysgwyr sy'n gysylltiedig â digwyddiadau yn ymwneud ag ymddygiad, a sut y gellir rheoli effaith ymddygiad heriol ar les a llwyth gwaith staff.

Hyd: adolygiad safonol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

### Y Cwricwlwm i Gymru: Addysgu yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru

Bydd yr adolygiad hwn yn diweddaru adroddiad thematig 'Gwella addysgu' Estyn o 2018. Bydd yn ystyried pa mor dda y mae ysgolion yn addysgu'r Cwricwlwm i Gymru ac yn cefnogi cynnydd disgyblion.

Hyd: adolygiad safonol

### Y Cwricwlwm i Gymru: Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd

Hwn fydd y cyntaf mewn cyfres o adolygiadau o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Byddai hyn yn canolbwyntio ar yr ystod oedran llawn o 3 i 16 oed. Bydd yr adolygiad yn ymdrin â chynllunio'r cwricwlwm, addysgu, asesu a chynnydd dysgwyr. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at arferion effeithiol.

Hyd: adolygiad safonol

### Adolygiad o Gynlluniau Hyfforddi y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Bydd yr adolygiad hwn o gynlluniau hyfforddi Cymraeg a dwyieithog presennol y Coleg ar gyfer y sectorau AB a Phrentisiaethau a'u heffaith yn llywio datblygiad strategaeth y dyfodol i sicrhau bod y cynlluniau'n diwallu anghenion y sector ôl-16.

Hyd: adolygiad safonol

### Sgiliau sylfaenol mewn addysg oedolion yn y gymuned

Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ba mor dda y caiff sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol eu haddysgu trwy gyfrwng dysgu oedolion yn y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gymuned. Bydd hyn yn ystyried dulliau gwahanol bartneriaethau o ymdrin â'r cwricwlwm, addysgeg ac asesu, gan gynnwys achredu lle bo hynny'n briodol. Bydd yr adolygiad yn ystyried ymyriadau sgiliau sylfaenol pwrpasol a'r rhai a wneir mewn cyrsiau eraill sydd â ffocws galwedigaethol cyffredinol. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried anghenion datblygu'r gweithlu.

Hyd: adolygiad safonol

## 1b) Cyngor parhaus yn seiliedig ar dystiolaeth o arolygiadau, gwaith ymgysylltu, a gweithgarwch arall

Mae Estyn yn darparu cyngor a chymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn amrywiol feysydd. Yn ystod 2024 i 2025 bydd Estyn yn parhau i gasglu gwybodaeth o arolygiadau a gwaith ymgysylltu i gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sectorau addysg a hyfforddiant. Bydd hyn yn arwain at gyngor parhaus drwy gyfarfodydd â swyddogion Llywodraeth Cymru ac yn llywio cyfraniadau Estyn i
weithgorau cenedlaethol, y Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol, cyngor ysgrifenedig, canllawiau cyhoeddedig neu adroddiadau.

Yn seiliedig ar dystiolaeth a gesglir o arolygiadau, gwaith ymgysylltu a gweithgaredd arall, bydd Estyn hefyd yn darparu 'r wybodaeth ddiweddaraf a chyngor ar y canlynol:

- Cwricwlwm i Gymru
- gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- presenoldeb yn yr ysgol
- y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg
- gwrth-hiliaeth
- cynllunio ar gyfer hunan-werthuso a gwella ysgolion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Gellid gofyn i Estyn roi cymorth i amryw o wahanol weithgorau, drwy ddod yn rhan ohonynt, cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, neu gynnal trafodaethau gydag uwch-swyddogion y Gyfarwyddiaeth Addysg ac Addysg Drydyddol. Byddai hyn hefyd yn cynnwys cyngor a chymorth ar gyfer yr agweddau hynny ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol o fewn cylch gwaith y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

### 1c) Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a gwasanaethau consortia/gwella ysgolion rhanbarthol i gefnogi ysgolion ac Unedau Uned Cyfeirio Disgyblion sy'n peri pryder

Bydd Estyn yn parhau i gydweithio â phartneriaid i sicrhau bod eu gwaith monitro a'u cefnogaeth i ysgolion ac Unedau Cyfeirio Uned Cyfeirio Disgyblion sy'n peri gofid yn plethu gyda'r cymorth gwella ysgolion a ddarperir gan eraill.

### 1d) Gweithredu trefniadau arolygu newydd yn y rhan fwyaf o sectorau o fis Medi 2024

Yn unol â'r argymhellion a geir yn Arolygiaeth Dysgu a chanllawiau gwella ysgolion Llywodraeth Cymru, mae Estyn yn bwriadu cynnal arolygiadau ac thrafodaethau mwy rheolaidd gydag ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion o fis Medi 2024. Bydd Estyn hefyd yn gweithredu trefniadau newydd yn y rhan fwyaf o sectorau addysg a hyfforddiant eraill o fis Medi 2024. Bydd Estyn yn dechrau cynnal arolygiadau rheolaidd o waith ieuenctid ac o ddarpariaeth drochi Cymraeg.

### 1e) Cefnogi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Dylai Estyn gefnogi datblygiad y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, cyn ei ddyddiad gweithredu ac ar ôl hynny, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth berthnasol a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

materion sy'n ymwneud â chylchoedd gwaith Estyn yn y dyfodol a'i berthynas â'r Comisiwn newydd a Llywodraeth Cymru.

## 1f) Meysydd eraill y gallai fod angen cyngor a chymorth ar Lywodraeth Cymru ynghylch addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Mae Estyn hefyd yn cynnig cefnogaeth barhaus yn y meysydd canlynol:

- cynigion yn ymwneud â chau ac ad-drefnu ysgolion
- datblygu yr arolygiad CPCP diwygiedig a monitro pob coleg arbenigol annibynnol yng Nghymru yn rheolaidd
- cofrestru ysgolion annibynnol, gan gynnwys ceisiadau newid sylweddolaterol
- arolygu a monitro ysgolion annibynnol yn rheolaidd, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u cofrestru i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddysgwyr sydd â datganiadau AAA neu gynlluniau datblygu unigol
- datblygu cymwysterau a threfniadau arolygu ar gyfer unrhyw ofynion newydd arfaethedig o ran hyfforddiant cychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes
- gwaith dilynol gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol
- gweithio gyda thîm Dyfarniadau Canolog Llywodraeth Cymru i gyfrannu unrhyw wybodaeth berthnasol fel rhan o'u proses ar gyfer dilysu dyfyniadau anrhydedd i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio i ddarparwyr addysg a hyfforddiant
- gwybodaeth gefndirol ar gyfer cyfarfodydd Gweinidogol ac ymweliadau ag ysgolion a darparwyr eraill
- cwestiynau i'r Senedd

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylch-gwaith-blynyddol-estyn-2024-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.